# LLWYDDO'N LLEOL

## YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBOL IFANC

LLWYDDO'N LLEOL 2050

**ENW:** Tara Taylor

**BRO:** Pontarfynach

## Ysbrydoli gwyddonwyr newydd

Mae Tara Taylor yn cyfuno ei chariad at wyddoniaeth a'i hastudiaethau yn ei rôl fel Cyfathrebwr Gwyddoniaeth Cymraeg gyda Menter Gwyddoniaeth Mawr yn Aberystwyth.

Mae'r cwmni'n cynnig gweithgareddau gwyddonol i blant ysgolion cynradd ledled Cymru, gan gynnwys partïon pen-blwydd a sesiynau ysgol.

"Dw i wrth fy modd yn cael y cyfle i ysbrydoli cenhedlaeth newydd o wyddonwyr," meddai Tara. "Mae'r plant yn cael llawer o hwyl yn gwneud arbrofion, ac mae'n braf gweld cymaint o alw am ein darpariaeth o Sir Fôn i Sir Benfro."

Yn wreiddiol o Aberystwyth, mae Tara bellach yn byw ym Mhontarfynach, lle mae wedi prynu tŷ a gweithio yn ei hardal enedigol.

## Sut mae Llwyddo'n Lleol wedi helpu?

Cafodd swydd Tara ei chreu gyda chefnogaeth elfen Gyrfaol Llwyddo'n Lleol, a gyfrannodd £12,000 i greu rôl newydd yn y cwmni, gan gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.

"Roedd y gefnogaeth gan Llwyddo'n Lleol yn anhygoel. Mae wedi fy helpu i gael gwaith yn fy ardal leol a datblygu fy sgiliau yn y maes."

Yn ogystal â gweithio gyda phlant, mae Tara wedi cael cyfleoedd rhyngwladol trwy'r rhaglen. "Fe ges i deithio i America am 10 diwrnod i dderbyn hyfforddiant gyda chwmni sy'n arbenigo mewn trin dŵr gwastraff. Roedd hyn yn uniongyrchol berthnasol i fy ymchwil ar fioleg afonydd Ceredigion."

## Beth nesaf?

"Dw i eisiau ehangu fy ngwybodaeth a chreu rhagor o gyfleoedd i blant ddysgu am wyddoniaeth drwy'r Gymraeg.

"Mae'r profiadau rydw i wedi'u cael dros y chwe mis diwethaf wedi bod yn anhygoel. Dw i mor ddiolchgar i'r Menter Gwyddoniaeth Mawr a Llwyddo'n Lleol am fy nghefnogi – mae wedi agor drysau i mi nad oeddwn i'n meddwl oedd ar gael."

ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government